# MYSTERIOUS AFAN CUDD
# Y GOF

Roedd gofaint yn hanfodol ym mhob tref yn yr oesoedd canol. Roeddent yn cynhyrchu – neu'n llunio – eitemau o haearn neu ddur. Roeddent yn gwneud arfau, tŵls ac offer, ac hefyd yn aml yn gweithio fel ffarier, yn gwneud pedolau ceffyl.

Yn Saesneg, mae'r *"black"* yn y gair *"blacksmith"* yn cyfeirio at yr haen o ocsidau sy'n ffurfio ar wyneb y metal pan mae'n cael ei wresogi. Ar y llaw arall, efallai bod yr enw Smith yn deillio o'r hen air Seisnig "Smythe," yn golygu "i daro".



Llun o Vince J. Heilman (1918-2000) Moose Jaw Times Herald, CC BY-SA 1.0, https://commons.wikimedia.org/w/index.php?curid=23233931



Gofaint yn Sallwyr Gorleston 1310 – y ddelwedd drwy ganiatâd *Medieval Miniatures* http:/www.bl.uk/manuscripts/Viewer.aspx?ref=add ms 49622 f154v

Yn Gymraeg mae'r gair Gof efallai'n deillio o enw Celtaidd duw y gofaint. Credir bod y grefft o droi carreg yn fetal, ac yna defnyddio'r metal i gynhyrchu gwrthrychau cywrain, mor ryfedd fel ei fod yn sgil goruwchnaturiol.

# MYSTERIOUS AFAN CUDD




Gofaint yn Sallwyr llawysgrif y Frenhines Isabella o Loegr, 1303. Y ddelwedd drwy ganiatâd *Medieval Miniatures*.

Y testun wedi'i addasu o:
https://medievalbritain.com/type/medieval-life/occupations/medieval-blacksmith/
https://www.laleston.com/vill
https://manuscriptminiatures.com/4447/13987

Mae'r gofaint yn gwresogi darnau o fetal tan eu bod yn ddigon meddal i'w ffurfio gan ddefnyddio tŵls llaw megis morthwyl, einion a chŷn. Yna, maen nhw'n ei weithio i'r siap sydd ei angen drwy ei forthwylio, ei blygu a'i dorri.

Roedd gofaint a oedd, yn y cyfnod hwnnw, bob amser yn ddynion, yn dysgu eu crefft oddiwrth Meistr, yn aml o oedran ifanc. Gan ei fod yn swydd bwysig, roedd rhaid i Gof ifanc weithio'n galed i gadw ymlaen gyda'i waith.



Ffotograff gan Hans Splinter
https://creativecommons.org/licenses/by-nd/2.0/